Gweiddi

## Tasg 1

# Arian poced

1. Pwy sy'n dweud beth?

| Sylw | Pwy sy'n ei ddweud? |
|---|---|
| i) Mae Dad yn rhoi mwy o arian na Mam. | |
| ii) Rwy'n fodlon tacluso fy ystafell, a dim mwy. | |
| iii) Rwy'n bargeinio i gael rhagor o arian. | |
| iv) Mae gweithio i gael arian poced yn beth da. | |
| v) Rwy'n haeddu cael arian poced heb fod rhaid gweithio amdano. | |
| vi) Mae Dad yn fy llwgrwobrwyo i ymarfer piano. | |
| vii) Mae fy rhieni'n gweithio, ac rwy'n fodlon eu helpu yn y tŷ. | |

2. Edrychwch ar y rhestr o dasgau yn y blwch.
   - Pa rai o'r rhain rydych chi'n eu gwneud, os o gwbl? Beth am eich partner/pobl eraill yn y dosbarth?
   - Pa dasgau rydych chi'n eu hoffi / yn eu casáu?
   - Beth am wneud '10 uchaf' y tasgau y mae'r dosbarth yn eu gwneud gartref?

3. Pa ganran o'r dosbarth a) sydd yn gweithio a b) sydd ddim yn gweithio er mwyn cael arian poced?

4. Edrychwch eto ar sylwadau'r bobl ifanc. Â phwy rydych chi'n cytuno fwyaf?

5. Pam mae gweithio i gael arian poced yn beth da / beth drwg, yn eich barn chi?

6. Faint mae aelodau'r dosbarth yn ei gael fel arian poced? Beth yw'r cymedr?

7. Tynnwch **bedair** llinell i gysylltu'r gair â'r diffiniad.

| | |
|---|---|
| gwerthfawrogi | bod yn deilwng o gael rhywbeth |
| llwgrwobrwyo | deall gwerth rhywbeth |
| haeddu | trafod i gytuno ar fargen |
| bargeinio | cael rhywun i wneud rhywbeth am arian |

Gorffennwch y brawddegau hyn.

1. Dwyt ti ddim yn haeddu

2. Rwy'n gwerthfawrogi bod

3. Mae'r clwb pêl-droed wedi bargeinio

4. Mae Mam yn fy llwgrwobrwyo i